Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council



# Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned

## Cynnwys


Cynnwys 2

Crynodeb Gweithredol 3

Pwrpas a chwmpas y polisi 3

Diffiniadau 4

Y Cyngor 4

Cymunedau 4

Egwyddorion ymgysylltu 6

Deall yr hyn yr ydym yn ei olygu o ran ‘ymgysylltu’ 6

Mesur a monitro ymgysylltiad 1

Cyfrifoldebau staff o safbwynt ymgysylltu 1

Adnoddau a chefnogaeth ar gyfer y polisi hwn 2

## Crynodeb Gweithredol

Mae’r polisi’n ceisio disgrifio sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys ei gymunedau wrth wneud penderfyniadau.

Fe fydd y polisi’n ddogfen gyhoeddus, a bydd staff y Cyngor yn cael eu cefnogi gan Fframwaith Ymgysylltu ac adnoddau pellach er mwyn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â’r polisi.

## Pwrpas a chwmpas y polisi

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ceisio creu diwylliant o ymgysylltu lle:

Mae staff a chontractwyr sy’n gweithio i Gyngor Sir Ddinbych yn gwybod ac yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt o ran cynnwys cymunedau mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt.

Mae cymunedau yn Sir Ddinbych yn ymgysylltu â’r Cyngor ac yn deall sut a phryd y bydd y Cyngor yn gallu eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau

Bydd y polisi hwn yn ymdrin â phob math o ymgysylltiad cymunedol, ar draws yr holl feysydd gwasanaeth a’r ardaloedd daearyddol yn y Sir. Mae’r polisi’n unol â’r dyletswyddau cyfreithiol o ran ymgynghori ac ymgysylltu, ond ni fydd yn darparu diffiniadau cyfreithiol na’n nodi’r canllawiau cyfreithiol ar gyfer ymgysylltu gan fod y rhain yn destun newid, a bydd yn hytrach yn ceisio darparu trosolwg eang o’r egwyddorion a’r safonau y mae’r Cyngor yn disgwyl y bydd ymgysylltu yn cael ei reoli’n unol â nhw o safbwynt strategol.

Mae hefyd yn bwysig nodi fod gan rai prosesau statudol, megis prosesau Cynllunio, creu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, cymeradwyo rhai trwyddedau ac ati, eu canllawiau ymgynghori statudol eu hunain, sydd wedi’u nodi gan awdurdodau y tu hwnt i Gyngor Sir Ddinbych, ond y mae’n rhaid i’r Cyngor gydymffurfio â nhw. Bwriad y polisi yw ategu at ganllawiau eraill a **lle bo canllawiau cyfreithiol ar gyfer ymgynghoriadau statudol yn bodoli ni fydd y Polisi hwn yn eu diystyru na’u disodli.**

## Diffiniadau

### Y Cyngor

Cyngor Sir Ddinbych, neu’r ‘Cyngor’ - cyngor sir ac awdurdod unedol sy’n cyflawni swyddogaethau llywodraeth leol yn Sir Ddinbych.

### Cymunedau

Cymunedau yw grwpiau o bobl sydd â hunaniaeth a rennir yn seiliedig ar ystod o ffactorau.

At ddibenion y polisi hwn, bydd Cymunedau’n cael eu disgrifio fel rhai sy’n rhannu un o dri o ffactorau cyffredin:

| Cymunedau Lle | Cymunedau Diddordeb | Cymunedau ar sail Amgylchiadau |
|---|---|---|
| Cymunedau lle yw'r cymunedau sy'n bodoli o fewn ffiniau daearyddol.<br>Mae'r mwyafrif o bobl yn perthyn i ystod o gymunedau yn seiliedig ar le ar yr un pryd. | Mae cymunedau diddordeb yn gymunedau y mae pobl yn perthyn iddynt yn seiliedig ar ddiddordebau cyffredin a rennir, a lle bo gan bobl ddewis o ran bod yn weithgar yn y gymuned honno. Mae'n bosibl y bydd llawer o orgyffwrdd rhwng cymunedau diddordeb a chymunedau ar sail amgylchiadau neu gymunedau lle. | Mae cymunedau ar sail amgylchiadau yn gymunedau y mae pobl yn perthyn iddynt neu'n uniaethu â nhw oherwydd pwy ydynt fel pobl. Ar gyfer nifer, mae gorgyffwrdd cryf rhwng eu hamgylchiadau a'u diddordebau, ac mae'r mwyafrif o bobl yn falch o berthyn i'w cymunedau. |
| Mae rhai enghreifftiau o Gymunedau Lle'n cynnwys:<br><br>Adeilad preswyl neu fan gwaith; stryd neu ystâd o dai; pentref, tref neu ddinas; sir Ddinbych | Mae rhai enghreifftiau o Gymunedau Diddordeb yn cynnwys:<br><br>Busnesau; grwpiau gweithredu amgylcheddol; cymunedau chwaraeon; cymunedau celf/crefftau; cymunedau gwirfoddoli; grwpiau cyn-filwyr; grwpiau diddordeb yn seiliedig ar le; grwpiau diddordeb yn seiliedig ar amgylchiadau | Rhai enghreifftiau o Gymunedau ar sail Amgylchiadau:<br><br>Pobl ifanc; pobl hŷn; pobl anabl; pobl o wahanol genedligrwydd; pobl o wahanol gefndiroedd ethnig; pobl sy'n ofalwyr neu'n ofalwyr ifanc; rhieni a phobl sy'n feichiog; pobl sy'n cyfrif eu hunain fel LHDTCA+ a phobl sy'n drawsryweddol neu'n anneuaidd |

Mae'r Cyngor yn deall bod y mwyafrif yn perthyn i sawl cymuned, a bod cryfder eu hunaniaeth mewn unrhyw gymuned benodol yn ddibynnol ar gyd-destun ac yn destun newid.

## Egwyddorion ymgysylltu

Mae ein model sbectrwm cyfranogiad yn galluogi'r Cyngor a chymunedau i ddeall y gwahanol fathau o ymgysylltiad y gellir eu defnyddio, ynghyd â phryd y maent yn briodol.

Yn ogystal â deall y mathau hyn, mae gan y Cyngor rai egwyddorion y bydd yn eu defnyddio i geisio ymgysylltu â chymunedau.

Mae'r rhain yn debyg i Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltiad Cyhoeddus yng Nghymru gan Gyfranogaeth Cymru ac maent fel a ganlyn:

- Byddwn yn sicrhau bod ein cymunedau'n deall beth yr ydym yn ei wneud a pham ein bod yn ei wneud
- Byddwn yn helpu ein cymunedau i ddeall beth y gallant ei ddisgwyl gennym ni
- Byddwn yn annog a galluogi ein cymunedau i gymryd rhan mewn modd priodol
- Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ymgysylltiad yn cael ei amseru a'i gynllunio'n briodol
- Byddwn yn sicrhau bod modd i'n cymunedau gymryd rhan yn y modd hawsaf posibl.
- Byddwn yn cefnogi ein gweithgareddau ymgysylltu gydag adnoddau, cefnogaeth a hyfforddiant priodol
- Byddwn yn sicrhau bod cymunedau'n deall pa wahaniaeth fydd eu cyfranogiad yn ei wneud
- Byddwn yn dysgu o'n gweithgareddau ymgysylltu ac yn meithrin diwylliant o welliant parhaus

## Deall yr hyn yr ydym yn ei olygu o ran 'ymgysylltu'

Nid yw 'ymgysylltu' ac 'ymgynghori' yr un fath, ond mae ymgynghori **yn** fath o ymgysylltiad.

Dylai'r Cyngor geisio ymgysylltu â chymunedau yn y modd mwyaf priodol ar gyfer y gweithgaredd dan sylw bob tro, ond nid yw ymgynghori'n briodol bob tro oherwydd efallai y bydd gan y Cyngor bwerau cyfyngedig i ystyried canlyniadau ymgynghoriad, er enghraifft yn ystod ymateb brys neu oherwydd cyfyngiadau deddfwriaethol.

Gyda hyn mewn golwg, bydd y Cyngor yn gweithio gyda model a elwir yn *sbectrwm cyfranogiad.* Mae'r model yn trin pob mecanwaith ymgysylltu yn gyfartal ac yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cyngor a chymunedau'n deall beth sydd fwyaf priodol o dan amgylchiadau'r prosiect / gweithgaredd dan sylw. Mae'n debyg y defnyddir gwahanol fecanweithiau cyfranogiad o'r model sbectrwm dros gyfnod oes prosiect.

Mae copi llawn o'r model sbectrwm cyfranogiad ar y dudalen nesaf, ond yn syml mae'r model yn cynnwys:

**Hysbysu** pan nad oes modd i'r Cyngor (am ba bynnag reswm) gynnwys cymuned mewn penderfyniad, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y gymuned yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf

**Ymgynghori** pan fydd yn rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad, ond y gallai elwa o gyfranogiad y gymuned, dylai gynnal ymgynghoriad

**Cynnwys** pan fydd Cyngor angen gweithio gyda chymuned yn agosach nag mewn ymgynghoriad, ond nad oes modd i'r gymuned fod yn bartneriaid cyfartal yn nyluniad/ datblygiad prosiect / gweithgaredd / gwasanaeth

**Cyd-gynhyrchu** pan y gall y Cyngor a'r Gymuned fod yn bartneriaid cyfartal yn nyluniad a datblygiad prosiect / gweithgaredd / gwasanaeth

**Grymuso** pan fydd Cymuned yn gyfrifol am wneud penderfyniadau a bod y Cyngor yn gweithredu fel galluogwr

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn nodi'r ystod o weithgareddau y gallai swyddogion eu hystyried wrth gynllunio neu reoli rhaglen o gyfranogiad cyhoeddus. Cyn ymgysylltu ag unrhyw raglen cyfranogiad cyhoeddus (a'r gweithgareddau a awgrymir ar gyfer pob math o gyfranogiad), dylai'r Swyddogion ystyried:

- Ymgymryd â gweithgareddau mapio budd-ddeiliaid sy'n dangos bod Swyddogion wedi ystyried pwy sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniad y mae'r Cyngor yn ei wneud a / neu sy'n dymuno cael dweud eu dweud ar y mater
- Sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r ffyrdd gorau posibl o gysylltu â'r budd-ddeiliaid a nodwyd, gan ganolbwyntio ar 'ddigidol yn gyntaf' lle bo modd, yn unol ag amcanion y Cyngor i leihau allyriadau carbon ac atal dirywiad natur. Pan nad oes modd defnyddio dulliau ymgysylltu digidol neu nad yw'n briodol, dylai Swyddogion ddangos eu bod wedi ystyried goblygiadau ariannol y Cyngor yn y prosesau argraffu neu gaffael sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyfranogiad cyhoeddus.

| | Hysbysu | Ymgynghori | Cynnwys | Cyd-gynhyrchu | Grymuso |
|---|---|---|---|---|---|
| Ein nod o ran Cyfranogiad | Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth gytbwys, ddi-duedd a fydd yn cynorthwyo ein cymunedau i ddeall:<br>- Beth sy'n mynd ymlaen<br>- Unrhyw gyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned<br>- Unrhyw ddatrysiadau sydd ar gael i ni (y Cyngor) | Byddwn yn ceisio derbyn adborth neu ddadansoddiad y gymuned y gallwn ei ddefnyddio i'n cynorthwyo i benderfynu beth i'w wneud nesaf. Efallai y byddwn yn cyfuno adborth cymunedol gydag ymchwil / adborth arall i'n cynorthwyo i wneud y penderfyniad cywir | Byddwn yn ceisio gweithio gyda chymunedau ar rai agweddau o ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau, er mwyn i ni ddeall beth sy'n bwysig iddynt yn well. | Byddwn yn gweithio gyda chymunedau fel partneriaid cyfartal i ddylunio, datblygu, darparu, monitro a gwerthuso gwasanaethau gyda'n gilydd | Byddwn yn gweithio gyda chymunedau i'w cefnogi i ddylunio a datblygu eu gwasanaethau eu hunain, gan ddefnyddio eu hasedau a'u hadnoddau eu hunain, a chyfranogi os oes angen |
| Ein haddewid i gymunedau | Fe fyddwn yn eich hysbysu bob amser | - Fe fyddwn yn eich hysbysu bob amser<br>- Byddwn yn gwrando ac yn cydnabod eich pryderon<br>- Byddwn yn rhoi gwybod i chi sut mae eich adborth wedi dylanwadu ar ein penderfyniad | - Mae eich cyfraniadau'n werthfawr i ni<br>- Byddwn yn darparu cyfleoedd i chi gyfranogi a byddwn yn rhoi gwybod i chi sut mae eich cyfraniadau yn ein cynorthwyo | - Byddwn yn gweithio gyda chi i feithrin partneriaeth yn seiliedig ar ymddiriedaeth, gyda buddion cyffredin a nodau cyffredin<br>- Byddwn yn gweithio gyda chi i ddylunio, datblygu a darparu gwasanaethau, ac fe fyddwch yn eu monitro | - Fe fydd gennym yr hyblygrwydd i'ch cynorthwyo pan fydd angen<br>- Fe fyddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'ch cynorthwyo i wireddu eich potensial fel cymuned |
| Sut fyddwn ni'n gwneud hyn | Datganiadau i'r wasg, negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, ffeithlenni neu daflenni, cyfarfodydd neu sesiynau galw heibio ar gyfer y cyhoedd, llythyrau | Grwpiau ffocws, fforymau agored, cyfarfodydd neu sesiynau galw heibio cyhoeddus, holiaduron / arolygon | Gweithdai, grwpiau ffocws neu rwydweithiau rhannu gwybodaeth, grwpiau cefnogi cyfoedion a chyllidebu cyfranogol | Pwyllgorau ymgynghorol yn cynnwys aelodau'r gymuned, gweithdai, penderfyniadau cyfranogol, rhwydweithio cymunedol | Hwyluso ac annog mentrau dan arweiniad y gymuned, rhannu arferion gorau / gwersi a ddysgwyd, darparu asedau / adnoddau |

## Mesur a monitro ymgysylltiad

Lle bo modd, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod yr ymgysylltiad y mae'n ei gyflawni gyda chymunedau'n effeithiol. Yn dibynnu ar natur y gwaith sy'n cael ei gyflawni, efallai y byddwn:

- Yn monitro nifer y rhai sy'n ymgysylltu â ni gan gynnwys:
  - ar y cyfryngau cymdeithasol
  - ar ein gwefan / drwy ap symudol
  - dros y ffôn neu drwy'r post
  - ymweliadau mewn digwyddiadau a gweithgareddau
- Mesur i ba raddau y mae pobl sy'n ymgysylltu â ni'n deall beth sy'n digwydd. Ymysg dulliau mesur eraill efallai y byddwn yn defnyddio:
  - Arolygon
  - Grwpiau ffocws /gweithdai
  - Galwadau ffôn
  - Siopau dros dro / cymorthfeydd galw heibio

## Cyfrifoldebau staff o safbwynt ymgysylltu

Pan wneir penderfyniadau gan y Cyngor sy'n debygol o effeithio ar gymunedau yn Sir Ddinbych, mae'n rhesymol bod y cymunedau hynny'n disgwyl i'r Cyngor ymgysylltu â nhw mewn modd priodol.

Cyfrifoldeb staff sydd â phwerau i wneud penderfyniadau fydd sicrhau bod ymgysylltu priodol yn digwydd gan fwyaf (h.y. Rheolwyr Canol ac uwch), er efallai y bydd ganddynt rôl gydlynol yn hytrach na chyfranogol.

Mae ymgysylltu wedi'i restru fel ystyriaeth benodol ym mhroses **Asesu'r Effaith ar Les** gan y Cyngor, gan olygu y dylai staff y Cyngor sydd â phwerau gwneud penderfyniadau ystyried sut y gallant ymgysylltu â chymunedau targed fel rhan o'u hamcanion cynllunio prosiectau.

## Adnoddau a chefnogaeth ar gyfer y polisi hwn

Ar gyfer cymunedau, mae gwybodaeth bellach o ran sut mae'r Cyngor yn bwriadu hwyluso a defnyddio ymgysylltiad ar gael drwy gysylltu â Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Cyngor.

E-bost: ymgysylltu.cyhoeddus@sirddinbych.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 708027

Ysgrifennu: Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Cwsmeriaid a Chymunedau, 3ydd Llawr, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN

Ar gyfer staff y Cyngor:

Mae modd canfod ystod eang o adnoddau neu gefnogaeth ar fewnrwyd staff y Cyngor - *Linc*, gan gynnwys:

- Canllawiau pellach, templedi ac adnoddau
- Offer i'w benthyg o Lyfrgell Pethau
- Cefnogaeth i greu a rheoli gweithgareddau ymgysylltu gan gynnwys:
  - Creu gwefan a chynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol
  - Cymorth i greu arolygon ymgynghori neu ymgysylltu
  - Cymorth i ddrafftio llythyrau, newyddlenni, posteri hysbysebu digwyddiadau
  - Cefnogaeth i gaffael argraffu

Os nad oes gennych fynediad at Linc yna ffoniwch 01824 708027 neu anfonwch e-bost at ymgysylltu.cyhoeddus@sirddinbych.gov.uk